**CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**

Cofnodion cyfarfod rhithwir y Pwyllgor Deddf Trwyddedu 2003 a gynhaliwyd ddydd Mawrth, 5 Medi 2023 am 4.30pm

Cafodd y cyfarfod yma ei ffrydio'n fyw ac mae manylion i'w gweld yma.

**Roedd Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol canlynol yn bresennol yn Siambr y Cyngor:**

Y Cynghorydd A Fox (Cadeirydd)

Y Cynghorydd G Stacey
Y Cynghorydd S Bradwick
Y Cynghorydd L Ellis
Y Cynghorydd G Holmes
Y Cynghorydd K Johnson
Y Cynghorydd A O Rogers
Y Cynghorydd J Turner

**Dyma'r Swyddogion oedd yn bresennol**

Ms R Hope, Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio
Mr P Nicholls, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyfreithiol
Ms K Trilloe, Rheolwr Diogelu Iechyd a Thrwyddedu
Mr O Williams, Uwch Gyfreithiwr, Materion Ymgyfreitha

## 1 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Daeth ymddiheuriadau am absenoldeb gan Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol S Powderhill a T Williams.

## 2 DATGAN BUDDIANT

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau mewn perthynas â'r Agenda.

## 3 DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A'R DDEDDF TROSEDD AC ANHREFN

**PENDERFYNWYD** nodi pan fydd Aelodau'n trafod y materion trwyddedu a chofrestru sydd ger eu bron, mae dyletswydd arnyn nhw i beidio â gweithredu mewn modd sy'n anghydnaws â'r confensiwn ar Hawliau Dynol a'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn.

## 4 COFNODION

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Ebrill 2023 yn rhai cywir.

5 **CYFLWYNIAD GAN SAFONAU MASNACH**

Derbyniodd y Pwyllgor gyflwyniad gan Mr G Lewis, Uwch Swyddog Safonau Bwyd ac Amaeth, mewn perthynas â dadansoddi alcohol yn safleoedd sydd â thrwydded alcohol yn Rhondda Cynon Taf, a hynny'n rhan o'r arolygiad rheolaidd sy'n cael ei gynnal gan y Gwasanaeth Safonau Masnach.

**PENDERFYNODD** Aelodau nodi'r cyflwyniad.

6 **ADOLYGIAD O DDEDDF TRWYDDEDU 2003 AC O DDEDDF GAMBLO 2005**

Cyflwynodd Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio yr adroddiad i'r Pwyllgor. Roedd yr adroddiad yn trafod materion perthnasol o ran Deddf Trwyddedu 2003 a Deddf Gamblo 2005 ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2023 a 21 Mai 2023, yn ogystal â materion atodol eraill sy'n deillio o gyfrifoldebau'r Pwyllgor.

Mae dadansoddiad o'r ceisiadau am Hysbysiadau Achlysuron Dros Dro yn nodi bod 25 wedi'u rhoi i safleoedd sydd â thrwydded eisoes, 18 wedi'u rhoi ar gyfer achlysuron yn y gymuned a 5 wedi'u rhoi i glybiau preifat. Mae nifer yr Hysbysiadau Achlysuron Dros Dro a gafodd eu cyflwyno yn ystod y cyfnod yma'n parhau i fod yn gyson, sef cyfanswm o 48. Ymhellach, mae'n ymddangos bod tuedd i'r rhain gael eu cyflwyno ar gyfer gwerthu alcohol mewn gemau rygbi a chwaraeir mewn clybiau lleol sy'n gwerthu alcohol i'w yfed oddi ar y safle. Yn ogystal â hynny, mae nifer o achlysuron wedi cael eu cynnal yn y gymuned ac ar safleoedd sydd â thrwydded er mwyn dathlu Coroni'r Brenin. Wrth i fisoedd yr haf agosáu, rydyn ni'n dechrau derbyn Hysbysiadau Achlysuron Dros Dro ar gyfer gwyliau awyr agored megis Cegaid o Fwyd Cymru.

Dywedodd Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio fod dim penderfyniadau wedi'u herio ers cyflwyno'r adroddiad diwethaf i'r pwyllgor, a bod dim adolygiadau i'w trafod yn ystod y cyfnod yma. Serch hynny, roedd yr Hen Swyddfa Bost (Squares), Porth, wedi cyflwyno apêl. Mae'r llysoedd wedi cadarnhau y bydd y gwrandawiad yn cael ei aildrefnu a bydd dyddiad yn cael ei drefnu yn fuan ar gyfer cynnal y gwrandawiad.

Cafodd yr Aelodau eu cyfeirio at adran 4.3 yr adroddiad, lle caiff arolygiadau o safleoedd a thor rheolau eu hamlinellu. Adroddwyd mai'r lefel cyflawniad bresennol ar gyfer safleoedd wedi'u harolygu yw 90.15% ar hyn o bryd, o'i chymharu ag 89.94% yn ystod y cyfnod adrodd blaenorol. Mae swyddogion yn gweithio'n barhaus gyda'r safleoedd yma i sicrhau eu bod nhw'n cydymffurfio.

Cafodd Aelodau wybod bod 2 safle wedi / ar fin cau yn ardal Cwm Cynon, sef Gwesty'r Mount Pleasant yn Aberpennar sydd yn cau ym mis Mehefin ac sydd ar werth ar hyn o bryd, a The Cardiff Arms yn Hirwaun sydd wedi cau ac sydd ar werth.

Rhannodd Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio y newyddion da y bydd tafarn The Glancynon yn Hirwaun yn ailagor eto yn ystod yr haf eleni, a hynny ar ôl bod ar gau ers nifer o flynyddoedd.

Mae clwb preifat yng Nghwm-parc wedi ildio ei drwydded.

Adroddwyd bod cyfarfod cyn cyflwyno cais wedi cael ei gynnal gyda pherchnogion newydd y safle, sef The Lighthouse, ac yna Troopers, yn flaenorol. Rhoddodd y perchennog newydd wybod mai ei fwriad yw gweithredu bar gwin. Mae'n gadarnhaol gweld busnesau newydd yn agor.

Mae safle yng nghanol tref Aberdâr wedi cael cyfarfod cyn cyflwyno cais ar gyfer siop sy'n gwerthu alcohol i'w yfed oddi ar y safle. Cafodd y cyfarfod yma ei gynnal ychydig fisoedd yn ôl ac ers hynny, credir bod perchnogion newydd yno. Mae Swyddogion Trwyddedu wedi cynnig cynnal cyfarfod cyn cyflwyno cais arall i'r perchennog newydd.  Mae'n ymddangos bod y safle'n gweithredu'n siop e-sigaréts (vape) ar hyn o bryd.

Cafodd Aelodau wybod bod y Garfan Drwyddedu, ynghyd â chydweithwyr Awdurdodau Cyfrifol eraill, wedi mynychu nifer o gyfarfodydd cyn cyflwyno cais yn ddiweddar, a hynny ar gyfer siopau sy'n gwerthu alcohol i'w yfed oddi ar y safle, safleoedd gwerthu bwyd gyda'r hwyr a safleoedd sy'n gwerthu alcohol i'w yfed ar y safle. Ar y cyfan, mae'r cyfarfodydd yma wedi bod yn boblogaidd.

Adroddwyd bod y Cynllun Partneriaeth Alcohol Gymunedol (CAP) ar fin cael ei ail-lansio yng Nghwm Cynon. Bwriad y cynllun yw addysgu pobl ifainc am beryglon alcohol ac atal safleoedd rhag gwerthu alcohol i bobl o dan 18 oed.  Hefyd, mae'r cydlynydd, Mel Blayney, wedi cysylltu i drafod gwaith Swyddogion Trwyddedu a safleoedd â thrwydded yn ardal Cwm Cynon.

Cafodd Aelodau wybod bod The Rickards yn Nhrefforest yn safle arall sydd ar werth ar hyn o bryd. Serch hynny, mae'r dafarn yn parhau i fasnachu ar hyn o bryd. Dyma leoliad grŵp Pubwatch Trefforest a Rhydfelen.

Cafodd Aelodau wybod am safle yng nghanol tref Pontypridd sydd wedi derbyn Hysbysiad Cau Adran 19 o ganlyniad i ddiffyg teledu cylch cyfyng a pheidio â chydymffurfio â'r amodau.  Hefyd, darganfuwyd bod yr un safle yn masnachu dros ddwy awr ar ôl yr hyn sydd wedi'i awdurdodi ar y drwydded.  Mae Heddlu De Cymru a'r Awdurdod Trwyddedu yn trafod y safle yma.

Roedd Aelodau'n falch o glywed newyddion da am ymweliad y Brenin (y Tywysog adeg yr ymweliad) â Threorci ym mis Mehefin y llynedd er mwyn dathlu ennill Gwobr Pencampwr Stryd Fawr Prydain Fawr. Chwaraeodd Adrian Emmett, perchennog The Lion yn Nhreorci, rôl hanfodol o ran dod

â'r gymuned at ei gilydd ac arwain yr ymgyrch i ddod yn Bencampwr Stryd Fawr. Er mwyn cydnabod ei ymdrechion a'i rôl arwain barhaus yn y gymuned, cafodd wahoddiad i Barti Gardd cyntaf y Brenin ddydd Mercher 3 Mai.

Cafodd Aelodau eu hatgoffa bod nifer o gyfarfodydd 'Pubwatch' yn cael eu cynnal ledled y Fwrdeistref ac mae Swyddogion Trwyddedu'r Awdurdod Lleol a Heddlu De Cymru yn cael gwahoddiad i fynychu. Yn ogystal â hyn, mae nifer dda yn mynd i'r rhan fwyaf o grwpiau Pubwatch ac maen nhw'n cael eu cynnal gyda chymorth Partneriaeth Lleihau Troseddau Busnes (BCRP) a grwpiau Ardal Gwella Busnes amrywiol.
Mae Mike Jacklin wedi bod yn gyfarwyddwr BCRP ers nifer o flynyddoedd. Rhan o'i rôl oedd cydlynu cyfarfodydd Pubwatch. Fe wnaeth Mr Jacklin ymddeol ym mis Mawrth eleni. Mae Cydlynydd Pubwatch newydd wedi cael ei benodi ac mae cyfarfod wedi'i drefnu gyda phobl amrywiol i drafod ffyrdd newydd o weithio yn y dyfodol.

Adroddwyd bod Carfan Teledu Cylch Cyfyng Cyngor RhCT wedi bod yn mynd i gyfarfodydd ledled y Fwrdeistref Sirol i gynnig cyngor a chymorth mewn perthynas â materion Radionet a theledu cylch cyfyng.

O ran adennill ffïoedd blynyddol, cafodd Aelodau wybod bod gan yr Awdurdod broses gadarn iawn er mwyn sicrhau bod taliadau'n cael eu derbyn. Bydd yn cymryd camau gweithredu, megis atal trwydded dros dro, os bydd angen. Mae trwyddedau nifer o safleoedd wedi'u hatal dros dro yn ystod y cyfnod yma. Mae hyn wedi arwain at ymateb a thaliad gan y safleoedd dan sylw, felly mae'r mesurau atal trwydded dros dro wedi cael eu dirymu. O ganlyniad i natur statig y fasnach, does dim llawer o newidiadau i'r sefyllfa. Mae adennill 100% o'r ffïoedd blynyddol yn safonol, a hynny'n bennaf oherwydd y darpariaethau cadarn yn y ddeddfwriaeth sy'n rhoi hawl i dynnu'r drwydded yn ôl mewn achosion o beidio â thalu'r ffïoedd priodol.

Tynnodd Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio sylw Aelodau at adran 5.1 yr adroddiad a rhoddodd yr wybodaeth ddiweddaraf iddyn nhw am Ddeddf Gamblo 2005.

Cafodd Aelodau grynodeb o ganiatâd presennol mewn perthynas â phroffil masnachu safleoedd â thrwydded.

## 7 TRAFOD CADARNHAU'R CYNNIG ISOD YN BENDERFYNIAD:

**PENDERFYNWYD** bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr eitem nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 13 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.

## 8 TRWYDDEDAU A CHOFRESTRIADAU A RODDWYD O DAN DDARPARIAETH PWERAU DIRPRWYEDIG YN YSTOD Y CYFNOD:

**01.04.23 - 21.05.23**

Cyflwynodd Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio fanylion trwyddedau a chofrestriadau a gyhoeddwyd yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2023 a 21 Mai 2023 i'r Pwyllgor.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** nodi cynnwys yr adroddiad.

**Daeth y cyfarfod yma i ben am 4.46pm**

**Y Cynghorydd A Fox**
**Cadeirydd.**